**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Ailystyriwch y codiad i'r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi tra'i bod yn anghyfreithlon i deithio i ail gartrefi

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Gorffennaf 2020
Petitions Committee | 17 July 2020

**Cyfeirnod:** RS20/12961-4

**Rhif y ddeiseb:** P-05-975

**Teitl y ddeiseb**: Ailystyriwch y codiad i'r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi tra'i bod yn anghyfreithlon i deithio i ail gartrefi.

**Geiriad y ddeiseb**: Mae codiad o 50% ar y dreth gyngor ar berchnogion ail gartrefi yn Sir Benfro. Yn ystod yr achosion o coronafeirws mae'n anghyfreithlon i deithio i ail gartref, ac felly ni ellir defnyddio'r cartrefi. Mae hwn yn benderfyniad derbyniol, gan ei fod yn lleihau'r posibilrwydd o lethu'r gwasanaethau iechyd gwladol. Ymddengys felly nad yw ond yn deg, o leiaf, y dilëir y codiad yn y dreth gyngor yn ystod yr amser y bydd yr heddlu yn dirwyo unrhyw un sy'n teithio i ail gartref.

# 1. Y cefndir

## Premiymau'r dreth gyngor

Gwnaeth Deddf Tai (Cymru) 2014 ddiwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992') i ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru godi cyfraddau uwch o dreth gyngor ar anheddau sy'n wag ers tro (sydd wedi bod yn wag am o leiaf flwyddyn) ac anheddau y preswylir ynddynt o bryd i'w gilydd, neu ail gartrefi fel y'u gelwir yn fwy cyffredin.

Cyfeirir at y Dreth Gyngor ychwanegol hon fel premiwm. Y cynnydd mwyaf y gall awdurdod lleol ei wneud yw **100% ychwanegol** o'r tâl treth cyngor safonol, hynny yw premiwm treth gyngor o 100%. Mae hyn yn golygu y gall yr awdurdod godi hyd at ddwbl cyfradd safonol y Dreth Gyngor ar berchnogion ail gartrefi ar gyfer yr eiddo hwnnw.

Y tro cyntaf y bydd awdurdod lleol yn dewis codi premiwm o'r fath, rhaid iddo wneud ei benderfyniad o leiaf blwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y codir y premiwm ynddi. Mae awdurdodau lleol wedi gallu codi premiwm ers mis Ebrill 2017.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r pwerau hyn.

## Eiddo sy'n cael eu heithrio

Ni ellir codi premiwm Treth Gyngor ar eiddo sydd naill ai heb ei fandio at ddibenion Treth Gyngor, sydd wedi'i eithrio rhag talu unrhyw Dreth Gyngor, neu lle mae Gweinidogion Cymru wedi dweud yn benodol na chaniateir codi premiwm.

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau lle na cheir codi premiwm. Mae'r rhain yn cynnwys eithriadau ar gyfer lleiniau a feddiennir gan garafanau (lle maent yn wag ar hyn o bryd, ond pan fydd unigolyn yno, dyna fydd ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa) a hefyd ar gyfer cartrefi tymhorol lle na chaniateir eu meddiannu trwy gydol y flwyddyn. Mae'r eithriad hwnnw'n berthnasol i anheddau sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Ar yr amod y bydd rhai amodau yn cael eu bodloni, gallai rhai perchnogion ail gartrefi fod yn atebol am ardrethi busnes, yn hytrach na Threth Gyngor. Yn yr achosion hynny, ni ellid codi premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi.

### Lleihau'r atebolrwydd dros bremiymau'r dreth gyngor ar gartrefi a fu'n wag ers tro ac ail gartrefi

Yn yr un modd ag y mae gan awdurdodau lleol bwerau dewisol i godi premiymau ar y gyfradd dreth gyngor safonol ar eiddo penodol, mae ganddynt bwerau dewisol i leihau premiymau hefyd.

Mae adran 13A o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol leihau atebolrwydd o ran y dreth gyngor i'r fath raddau y mae'n eu hystyried yn addas. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y gellir defnyddio'r pŵer i 'leihau atebolrwydd am dreth gyngor mewn amgylchiadau lle y byddai awdurdod lleol fel arall yn codi premiwm'.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn glir yn y canllawiau mai '**mater i awdurdod lleol** yw p'un a yw pwerau dewisol 13A yn cael eu defnyddio i leihau atebolrwydd am dreth gyngor o ran y premiwm'. Mae'r canllawiau yn mynd ymlaen i nodi y bydd trafodaethau awdurdodau lleol ynghylch y pwerau dewisol yn 13A yn debygol o fod yn wahanol 'pan gânt eu hystyried i leihau atebolrwydd am dreth gyngor sy'n ganlyniad premiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd am raddfa safonol y dreth gyngor'.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru

Tua dechrau'r cyfyngiadau symud (1 Ebrill 2020), cyflwynodd Joyce Watson AS gwestiwn i Weinidogion Cymru ar y mater hwn: Yng ngoleuni'r cyngor presennol i bobl allu aros yn eu prif breswylfa, a yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau gyda llywodraeth leol ynghylch taliadau treth gyngor ar gyfer perchnogion ail gartrefi?

Roedd yr ymateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn nodi:

> The powers for local authorities to apply council tax premiums to second homes are discretionary. It is for individual authorities to determine whether to apply a premium and the level at which this will apply.

Roedd rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn gwahardd teithio nad oedd yn hanfodol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys teithio i ail gartrefi.

Wrth ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, pwysleisiodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd unwaith eto fod premiymau treth gyngor yn fater i awdurdodau lleol, gan nodi:

> The decision to apply a premium, and the level at which to apply it, sits with each local authority enabling them to take account of their community needs and circumstances. Local authorities also have discretionary powers to apply discounts to the council tax bills for second homes and empty properties.

Mae'r ymateb yn parhau trwy nodi nad 'mesur codi refeniw' oedd cyflwyno premiwm, ond ailddefnyddio cartrefi gwag a chartrefi sy'n cael eu tanddefnyddio i helpu i reoli'r cyflenwad tai lleol.

Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi **nad oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i addasu natur ddewisol y pwerau hyn**.

# 3. Camau gweithredu'r awdurdodau lleol

Awdurdodau lleol sy'n penderfynu a ydynt am godi premiwm ai peidio yn eu hardal. Mae sawl awdurdod yn codi premiwm ychwanegol o 25-50% ar ail gartrefi yn eu hardal, gyda rhai yn codi'r premiwm uchaf, sef 100%. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau yn codi unrhyw bremiwm o gwbl.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar eu gwefan ynghylch y premiwm sy'n ymateb i Covid-19. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro yn nodi **nad oes newid** i Bremiwm y Dreth Gyngor a godir ar hyn o bryd ar berchnogion ail gartrefi yn sgil pandemig y coronafeirws.

Mae gwefan Cyngor Sir Penfro yn nodi'r hyn a ganlyn am y mater:

> Mae'r Awdurdod wedi wynebu beirniadaeth gan rai perchenogion ail gartrefi sy'n hawlio na ddylid codi'r taliad ychwanegol am nad ydynt yn gallu defnyddio eu heiddo yn Sir Benfro oherwydd cyfyngiadau teithio'r coronafeirws
>
> Ond dywed y Cyngor **nad yw haint COVID-19 yn effeithio dim** ar y rheswm dros gyflwyno'r premiwm yn y lle cyntaf dair blynedd yn ôl.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.